LC26 - LC28, LC32 & LC36

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## GORCHYMYN ADDYSG (CWRICWLWM CENEDLAETHOL) (TARGEDAU CYRHAEDDIAD A RHAGLENNI ASTUDIO MEWN [SAESNEG, MATHEMATEG, ADDYSG GORFFOROL, GWYDDONIAETH, CYMRAEG,] ) (CYMRU) 2000

### Cefndir

Mae Adran 356 Deddf Addysg 1996 yn cynnwys Gorchymyn yn rhoi grym i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bennu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio ar gyfer pob un o bynciau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Nid oes yn rhaid i Orchymyn ynddo'i hun gynnwys y darpariaethau sydd i'w gwneud. Gall Gorchymyn gyfarwyddo fod y ddarpariaeth i'w heffeithio fel y pennwyd mewn dogfen a gyhoeddwyd ar wahân.

Mae'r adroddiad hwn yn gymwys i bum Gorchymyn sy'n darparu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio mewn pum pwnc sylfaen, sef Saesneg, Mathemateg, Addysg Gorfforol, Gwyddoniaeth, a Chymraeg. Ar wahân i'r cyfeiriadau ym mhob achos at y pwnc, a'r darpariaethau yn y Gorchymyn Gwyddoniaeth, mae'r Gorchmynion i gyd yn union yr un fath â'i gilydd. Y targedau a'r rhaglenni ym mhob Gorchymyn yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ar gyfer y pwnc arbennig o dan sylw.

Y ddarpariaeth wahanol yn y Gorchymyn Gwyddoniaeth yw'r gwaharddiad clir (yn Erthygl 3(2)) ar astudiaeth o AIDS, HIV, clefydau a drosglwyddir yn rhywiol ac agweddau (heblaw

agweddau biolegol) ar ymddygiad rhywiol dynol. Mae hyn yn cydymffurfio gyda'r gofyniad yn adran 356(9) Deddf Addysg 1996, ac yn cael ei adlewyrchu yn enwi ychwanegol adran 356(9) ym mhwerau galluogi'r Gorchymyn Gwyddoniaeth.

Mae'r Gorchmynion sy'n ymwneud â'r pynciau sylfaen eraill yr un fath â'r Gorchmynion presennol heblaw am y ffaith fod gan y gorchmynion presennol ddyddiadau cychwyn gam wrth gam; un dyddiad cychwyn sydd gan y gweddill. Mae adroddiad ar wahân ar gyfer y Gorchmynion hyn.

Bydd y gofynion newydd yn gymwys o 1 Awst 2000, ond yn achos y pedwerydd cyfnod allweddol bydd y darpariaethau'n gymwys o 1 Awst 2001 ar gyfer blwyddyn gyntaf disgyblion y cyfnod hwnnw ac o 1 Awst 2002 i'r holl ddisgyblion eraill yn y cyfnod hwnnw.

Mae pob Gorchymyn yn disodli'r gorchymyn sydd mewn bodolaeth ar gyfer y pwnc penodol o dan sylw.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ni ystyrir fod unrhyw faterion yn codi o SO 11.5 y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau ar y Rheoliadau**

Mae Ymgynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar ddrafftiau cynharach o'r Rheoliadau hyn. Darganfuwyd rhai mân wallau drafftio ac o ganlyniad mae'r rhain wedi'u cywiro yn y drafftiau sydd ger bron y Cynulliad. Fodd bynnag, mae dau bwynt bach yr hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad atynt:

1. **Troednodion**

   Bydd angen i'r rhain fod mewn ffurf dwy golofn yn y Gorchmynion printiedig.

   Yn nhroednodyn (ch)/(d) i Erthygl 1(3), mae'r rhif ISBN yn dal i fod heb ei fewnosod.

2. **Erthygl 1 – rhifo paragraffau**

Mae’r prosesydd geiriau’n creu amryw o wallau o wahanol fathau wrth rifo’r paragraffau yn y testun Cymraeg. Bydd yn rhaid cywiro’r rhain yn y fersiynau printiedig terfynol.

**M German**

Cadeirydd, Pwyllgor Deddfau

7 Rhagfyr 1999

**Cyf: LAD-01-01-022**